SENEDD!

# Cofnodion

**Senedd**

**02/11/2020**

| Agenda | Eitem | Nodiadau | Dadansoddiad Pleidleisio | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
| **Croeso a Sylwadau Agoriadol** | Rhoddodd Cadeirydd yr Undeb groeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod a hysbysodd yr aelodau ynglŷn â sut byddai'r cyfarfod yn gweithio. | Roedd 26 Aelod o'r Senedd yn bresennol, felly roedd cworwm ar gyfer y cyfarfod. | | | |
| | Ymddiheuriadau am absenoldeb | Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb | | | |
| | Cymeradwyo cofnodion y Cyfarfod blaenorol | Daeth 1 ymgeisydd ymlaen, Sophie Asquith | | | |
| | Materion yn codi o'r cofnodion | Dim | | | |
| **Etholiad y Dirprwy Gadeirydd Rhan 1** | Gwahoddwyd ymgeiswyr oedd â diddordeb mewn sefyll i fod yn Ddirprwy Gadeirydd i ddod ymlaen. | Daeth 1 ymgeisydd ymlaen, Sophie Asquith | | | |
| **Adroddiad y Swyddogion** | Darparodd Nate Pidcock (Llywydd) grynodeb o Adroddiad y Swyddogion, sydd ar gael yn y papurau ar gyfer y cyfarfod. | Ni ddarllenodd Nate yr adroddiad, gan ei fod wedi cael ei ddosbarthu i'r aelodau ymlaen llaw, ac roedd ar gael i'w ddarllen ar y wefan. | | | |

# SENEDD!

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Etholiad y Dirprwy Gadeirydd Rhan 2** | Areithiau | Doedd dim areithiau, gan i Sophie gael ei hethol yn unfrydol fel yr unig ymgeisydd. | | | |
| | Pleidlais | Sophie gael ei hethol yn unfrydol fel yr unig ymgeisydd. | 100% | | |
| **Hysbysiad o Bolisïau'n Dod i Ben** | Roedd y ddogfen oedd ar gael yn amlinellu polisïau sy'n dod i ben eleni. Hysbyswyd y rheiny oedd yn bresennol bod yn rhaid i fyfyrwyr ailgyflwyno polisi sy'n dod i ben i Senedd neu Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol er mwyn i ni barhau i weithio arno. | Esboniodd Alice (Cydlynydd Llais Myfyrwyr) bod y rhain yn cael eu dosbarthu rhag ofn bod cynrychiolydd am ail-gyflwyno ar gyfer y flwyddyn. | | | |
| **Senedd - Eich Syniadau** | Trafod y syniadau a gyflwynwyd i'r Senedd, ac yna cynhaliwyd pleidlais arnyn nhw. | | | | |
| **1** | **Myfyrwyr yn Diffodd UCM (Beth Wright)** | | | | |
| | Araith y cynigydd | Cyflwynodd Beth Wright y syniad i'r Senedd. | | | |
| | Cwestiynau (i'r cynigydd) | Roedd cwestiynau'n cynnwys a fyddai'r gystadleuaeth yn gymhariaeth uniongyrchol ar draws gwahanol flociau llety, â gwahanol lefelau o insiwleiddio. Hefyd a fyddai angen i ni gyflogi aelod staff i gynnal y digwyddiad, sut fydden ni'n gallu fforddio ymuno â'r cynllun, a chynaladwyedd Ben & Jerry's fel gwobr. | | | |
| | Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn) | Pwyntiau yn erbyn:<br>• Mae'n llawer o arian i'w wario ar rywbeth nad oes sicrwydd y byddai'n cael llawer o effaith<br>• Cwestiynau ynghylch cymhelliant myfyrwyr i gyfranogi<br><br>Pwyntiau o blaid: | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | • Ar y cyfan, mae'n syniad da iawn gwneud ymrwymiad i'r amgylchedd<br>• Cefnogaeth i'r syniad y gallai'r syniad ledaenu i lety preifat yn ogystal<br>• Mae'r cyfleusterau a'r isadeiledd yna'n barod | | | |
| | Pleidlais | Pasiwyd | 100% | 0% | 0% |
| **Unrhyw Fusnes Arall** | Dim | | | | |